**EITEM AGENDA: 7**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**15 Rhagfyr 2008**

## CYLLIDEB DDRAFFT 2009-10

**Adroddiad gan Ken Finch, Trysorydd**

## PWRPAS YR ADRODDIAD

**1.** Cyflwyno cyllideb ddrafft 2009-10 i Aelodau ar gyfer ei chymeradwyo.

## CYFLWYNIAD

**2.** Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys cynigion i'r Awdurdod mewn perthynas â chyllideb ddrafft 2009-10, y rhagolygon ar gyfer 2010-11 a 2011-12, ac mae'r papurau sydd wedi'u hatodi'n dangos:-

(i) y gyllideb refeniw ddrafft (Atodiad A),

(ii) y cyfraniadau dros dro sy'n ofynnol gan yr Awdurdodau Perthnasol (Atodiad B),

(iii) y rhaglen gyfalaf ddrafft (Atodiad C).

Ni chynhwyswyd y Gyllideb mewn fformat Gwerth Gorau, Strategaeth Flynyddol Rheoli'r Trysorlys a'r Dangosyddion Darbodus oherwydd cyfyngiadau amser ac fe'u cyflwynir i Aelodau yn y dyfodol.

## CEFNDIR

**3.** Eleni dechreuodd y broses o bennu'r gyllideb ym Medi gydag adroddiad i'r Panel Gweithredol yn nodi'r pwysau posibl ar gyllideb flwyddyn nesaf yn unol â chais gan Aelodau am gael mwy o ran yn y broses. Rhoddodd ail adroddiad i'r Panel Gweithredol ym mis Tachwedd gyfle i Aelodau asesu'r pwysau ar y gyllideb a syniad i swyddogion o ba lefel o gynnydd yn y gyllideb fyddai'n dderbyniol oherwydd y pwysau ariannol oedd yn wynebu Awdurdodau Unedol yn sgil y cynnydd bychan a gyhoeddwyd yn y setliad Grant Cynnal Refeniw Dros dro ar gyfer Awdurdodau Gogledd Cymru.

## CYLLIDEB REFENIW

**4.** Roedd yr adroddiad yn manylu ar y cynnydd yn y gyllideb ar gyfer 2009-10 a gyflwynwyd i'r Panel Gweithredol ym mis Tachwedd yn nodi y byddai angen cynnydd o 3.56% ar gyfer y pwysau na ellid mo'u hosgoi yn y gyllideb. Ond, roedd y cynnydd hwn yn cynnwys y Dyfarniad Tâl ar sail 2% ac roedd yn seiliedig ar £192k o'r Darpariaethau.

**5.** Nododd Aelodau y byddent yn derbyn cynnydd o rhwng 3% a 3.5% yn y gyllideb. Hefyd byddai'n well ganddynt i'r cynnydd yn y gyllideb ar gyfer y dyfarniad tâl fod yn 2.5%, ac os yn bosibl, heb fod yn seiliedig ar y Darpariaethau.

**6.** Gyda syniad o'r lefel derbyniol o safbwynt cynnydd, mae swyddogion wedi ail-edrych ar y gyllideb ddrafft i weld a ellid gwneud unrhyw ostyngiad a chynnwys dyfarniad tâl ar sail 2.5%. Aethpwyd ati i baratoi dadansoddiad mwy manwl o gostau, yn benodol costau pensiwn ac Yswiriant Gwladol y cyflogwr i weld a ellid gwneud unrhyw arbedion. Canfuwyd arbedion bach hefyd ar draws nifer o benawdau eraill o'r gyllideb, gan sicrhau arbedion ariannol sylweddol yn gyffredinol.

**7.** Hefyd cododd y cyfle i ail-drefnu rhai o'r Portffolio Benthyciadau gan arwain at arbedion o £78k mewn costau llog ar gyfer 2009-10 a £35k yn y flwyddyn ariannol hon. Bydd manylion pellach am yr ail-drefnu'n cael eu cynnwys yn Strategaeth Flynyddol Rheoli'r Trysorlys.

**8.** Roedd y newidiadau i'r drefn o ariannu cynllun pensiwn yr Ymladdwyr Tân yn golygu - ym mhob achos o ymddeol ar sail salwch y telir lwmp swm i'r gronfa bensiwn. Pan gyflwynwyd y pensiwn, bu i'r Awdurdod gynnwys £80k yn y gyllideb refeniw bob blwyddyn i gynnwys unrhyw daliadau posibl a hefyd cadwodd Ddarpariaeth Bensiwn i gynnwys unrhyw daliadau oedd yn uwch na'r swm hwn. Ers i'r cynllun pensiwn newid mae'n ymddangos bod nifer yr achosion o ymddeol ar sail salwch wedi lleihau'n sylweddol a bellach ni fydd angen cynnwys arian yn y gyllideb refeniw. O ganlyniad sicrhawyd arbedion o £80k ar gyfer 2008-09 a 2009-10.

**9.** Nid oes unrhyw arian ychwanegol wedi'i gynnwys yn y gyllideb ar gyfer Diogelwch Cymunedol ond yng nghyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd argymhellwyd bod yr Awdurdod yn lobïo Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Aelodau'r Cynulliad am arian ychwanegol yn benodol ar gyfer gwaith diogelwch cymunedol.

**10.** Mae'r tabl isod yn dangos yr opsiynau ar gael i Aelodau ar gyfer cyllideb flwyddyn nesaf. Er mwyn cyrraedd y lefelau a nodwyd gan Aelodau bu'n rhaid defnyddio peth ar Ddarpariaethau a thanwariant. Os yw Aelodau'n galw am ostyngiad pellach neu newid i'r opsiynau ariannu byddai hynny'n debygol o effeithio ar wasanaethau rheng flaen.

| **Opsiynau** | **% Cynnydd** | **Cynnydd Ariannol £** |
|---|---|---|
| Opsiwn 1 | 3.87 | 1,173,392 |
| Opsiwn 2 | 3.49 | 1,058,392 |
| Opsiwn 3 | 2.99 | 908,392 |

**Opsiwn 1 -** mae'n cynnwys yr holl bwysau na ellir mo'u hosgoi ar y gyllideb a'r dyfarniad tâl ar sail 2.5%. Yr opsiwn â lleiaf o risg yn perthyn iddo gan nad yw'n seiliedig ar adnoddau unwaith ac am byth.

**Opsiwn 2** -fel Opsiwn 1 ynghyd â neilltuo'r tanwariant y gwyddom amdano o 2008-09 (arbedion llog £35k, cyfraniad salwch £80k, cyfanswm £115k) i gefnogi'r gyllideb. Opsiwn â mwy o risg yn perthyn iddo gan fod y gyllideb yn seiliedig ar adnoddau unwaith ac am byth.

**Option 3 -** fel Opsiwn 2 ynghyd â £150k o'r Darpariaethau. Dyma'r opsiwn â'r mwyaf o risg yn perthyn iddo gan fod y gyllideb yn seiliedig ar adnoddau unwaith ac am byth sy'n dod i gyfanswm o £265k gan greu problem i'r broses o bennu cyllideb 2010-11.

**11.** Yn Atodiad A manylir ar y gwariant gwirioneddol ar gyfer 2007-08, y cyllidebau gwreiddiol a'r ffigurau allanol ar gyfer 2008-09, yr amcangyfrif o'r gyllideb ar gyfer 2009-10 a'r rhagolygon ar gyfer 2010-11 a 2011-12.

**12.** Er mwyn sicrhau na ddefnyddir yr adnoddau unwaith ac am byth eto, gallai fod yn opsiwn i un o weithgorau'r Aelodau chwilio am arbedion yn 2009-10 ar gyfer 2010-11.

**CYFRANIADAU**

**13.** Yn Atodiad B nodir y cyfraniadau dros dro ar gyfer 2009-10 ac mae'n cynnwys dadansoddiad o bob opsiwn a restrir uchod.

**RHAGLEN GYFALAF**

**14.** Mae'r rhaglen gyfalaf ddrafft ar gyfer 2009-10 i'w gweld yn Atodiad C ac mae'n dod i £3.3m o wariant newydd a chynlluniau a gymeradwywyd yn flaenorol yn naill ai 2007-08 neu 2008-09 sy'n dod i £2.3m. Enghreifftiau o'r cynlluniau newydd yw ailfodelu gorsafoedd Tân ac Achub Betws-y-coed a Glannau Dyfrdwy a thynnu i lawr y tyrrau hyfforddi nas defnyddir bellach. Mae hyn yn ychwanegol at brynu offer newydd a cherbydau cysylltiedig yn unol â'r rhaglen newid cerbydau. Yn 2008-09 y ffigurau terfynol a amcangyfrifid ar gyfer gwariant cyfalaf yw £6.4m. Cynigir ariannu hyn o fenthyciadau a derbyniadau cyfalaf.

**15.** Fel y crybwyllwyd uchod efallai y bydd Aelodau'n dymuno edrych ar y rhaglen gyfalaf yn fwy manwl yn 2009-10 er mwyn pwyso a mesur manteision cost y rhaglen gyfalaf a chynllunio ar gyfer gofynion gwariant yn y dyfodol.

**ARGYMHELLION**

**16.** Argymhellir bod:

(i) Aelodau'n cymeradwyo'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2009-10 yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarperir yn yr adroddiad.

(ii) Awdurdodau Perthnasol yn cael eu hysbysu o'r cyfraniadau dros dro sydd eu hangen ar gyfer 2009-10.

(iii) Bod y rhaglen gyfalaf ddrafft ar gyfer 2009-10 a dulliau ariannu cysylltiedig yn cael eu cymeradwyo.

(iv) Os bydd unrhyw newidiadau cyn 15 Chwefror 2009, bod y pwerau i ddiwygio lefel y gyllideb yn cael eu dirprwyo i'r Panel Gweithredol.